# P. H. JONES
## a nyth cacwn arall yn hanes yr *Amserau*
## Perchennog yr hen bapur o flaen ei well

CYN I'R ffrae rhwng yr *Amserau* a Hiraethog dawelu, tynnodd y newyddiadur nyth cacwn arall am ei ben. Canol Mai 1856, cyhoeddodd adroddiad gan ohebydd lleol o Ben-y-bont ar Ogwr a ddaeth yn destun achos o enllib troseddol yn llys Mainc y Frenhines, achos a fygythiai barhad yr *Amserau*.

Ni wyddys pwy oedd y gohebydd, ond mae'n amlwg ei fod — fel nifer o gefnogwyr selog y newyddiadur — yn Brotestant pybyr. Bu wrthi eisoes, er enghraifft, yn gwawdio tueddiadau tractaraidd yr offeiriad lleol.

Gwelodd yn awr ei gyfle i ymosod yn uniongyrchol ar gynrychiolwyr Anghrist trwy bardduo cymeriad offeiriad pabyddol, William Marshall, gŵr a fu'n aelod diwyd o'r genhadaeth i Aberafan a Phen-y-bont ers diwedd 1853.

Cwynodd fod y gwasanaethau a gynhaliwyd gan Marshall ym Mhen-y-bont yn 'achlysur i anfoesoli'r dref, i raddau ofnadwy' gan iddynt ddenu yno heidiau o Wyddelod a oedd yn 'cydyfed ar Sabbathau y *mass*'.

Aeth ymlaen i adrodd yr hanesyn canlynol am yr offeiriad. Ers tro, arferai sawl 'boneddiges ieuanc' Wesleaidd fynd o amgylch i ddosbarthu llyfrynnau gwrth-babyddol i drigolion yr ardal. Yng ngeiriau'r adroddiad:

> *'Aeth boneddiges ieuanc i dŷ Pabydd â thraethawd, fel arferol, ar y Sabbath, a phwy oedd yno yn eistedd yn y tŷ, ond Mr Marshall, yr offeiriad.*
>
> *Wrth ddatgan ei wrthwynebiad i ranu traethodau crefyddol, dywedodd y gwr parchedig, meddir, "nad y cymeriadau goreu oedd yn . . . myned â'r traethodau oddi amgylch. I hyn yr ydym yn ateb . . . (bod y) boneddigesau yn gyfryw o ran eu cymeriadau, na fyddent mor hyf a rhodiana mor aml gyda dynion ieuainc ag y gwna un o'i braidd gydag ef ar nosweithiau, mewn sefyllfa anmhriodol, er y proffesa efe ei fod yn ymwrthod â gwreica".'*

Ymateb Marshall i'r ensyniad ym mrawddeg olaf yr adroddiad oedd dwyn achos yn erbyn Lloyd fel argraffydd, cyhoeddwr a pherchennog yr *Amserau*. Aeth â'i gŵyn yn syth i lys Mainc y Frenhines, lle penderfynwyd, ar 10 Mehefin, fod cyhuddiad gwirioneddol i'w ateb.

Ym marn y Prif Ustus, yr arglwydd Campbell, 'roedd yn ymddangos bod yr erthygl yn cynnwys *'an imputation of want of chastity, or at least of improper levity, such as would be unbecoming any clergyman'*.

Prif gwnsler Marshall oedd William Shee, cyfreithiwr galluog a phabydd selog: yn wir, efe oedd y pabydd cyntaf i gael ei benodi'n farnwr (yn 1863) ers chwyldro 1688. 'Roedd ei enwogrwydd ar y brig ganol 1856 gan ei fod newydd arwain amddiffyniad y gwenwynwr rhyfygus William Palmer, gŵr a lofruddiodd o leiaf chwech o bobl yn y gobaith y gellid defnyddio'r elw o'r polisiau yswiriant a godwyd arnynt ganddo er mwyn talu ei golledion betio ar geffylau.

Bu ymdrechion glew Shee yn aflwyddiannus: yn wir, pan ddaeth achos Lloyd gyntaf ger bron, 'roedd Palmer ar fin cael ei grogi!

* * * *

YN Y rhifyn canlynol o'r *Amserau* (18 Mehefin) mynnodd Lloyd nad oedd unrhyw sail i'r achos yn ei erbyn; yn wir, fod y cyfan yn deillio o gamgymeriad neu'n hytrach o 'anwybodaeth y Parch Mr Marshall neu y rhai a'u cynghorent, o'r Iaith Gymraeg'.

Yn ôl Lloyd, gwir ystyr 'anmhriod' oedd 'di-briod': dylid felly defnyddio 'unmarried' nid 'improper' wrth gyfieithu'r adroddiad. Mynegodd ei barodrwydd gan hynny i 'daro'r achos ar farn unrhyw Farnwr neu reithwyr diduedd a chyfarwydd yn yr Iaith Gymraeg' a mynnodd mai gwir oedd yr holl hanes a gyhoeddwyd ganddo.

Er bod ei eiriau'n hyderus — yn wir yn feiddgar — gwyddai Lloyd mai dyma'r argyfwng peryclaf ond odid yn holl hanes tymhestlog yr *Amserau*. Pe bai'n colli'r achos, byddai'n wynebu dirwy sylweddol yn ogystal â'r holl gostau, costau a fyddai'n bur uchel gan fod Marshall wedi dwyn yr achos ger bron llys Mainc y Frenhines a dewis cyfreithiwr blaenllaw fel ei brif gwnsler.

'Roedd eraill yn sylweddoli pa mor enbyd oedd sefyllfa'r *Amserau*. Mewn llythyr at Eben Fardd tua diwedd Mehefin dywedodd Hiraethog, 'mae yn bur debygol yr andwyir Lloyd druan, ac y derfydd am yr *Amserau* yn y canlyniad'.

Ond yna, gan gofio'r ffrae a fu rhyngddynt, fe ychwanegodd y 'buasai yn llawn cystal i Lloyd a'i olygydd fod yn fwy cymhedrol eu tôn nac y buont yn ddiweddar, cawsent fwy o gydymdeimlad yn nydd eu trallod'.

* * * *

DAETH yr achos gerbron Prif Ustus Campbell a'r Ustusiaid Coleridge, Wightman ac Erle ar y 17 Tachwedd. Dadleuodd amddiffynnwr Lloyd nad oedd sail gwirioneddol i'r cyhuddiad: 'roedd yn dibynnu ar *'an inaccurate translation of an article in an unknown tongue'*, gosodiad a barodd gryn ddigrifwch yn y llys!

Aeth ymlaen i honni na fwriadai Lloyd bardduo moesau Marshall: pe bai hwnnw wedi ei holi ynglŷn ag ystyr y frawddeg, byddai wedi esbonio ystyr yr ymadrodd iddo.

Er i Shee fynnu bod y frawddeg yn cynnwys ensyniad yn erbyn Marshall, barn Prif Ustus Campbell oedd mai ystyr amwys oedd iddi. Gan fod Lloyd wedi esbonio nad oedd yn bwriadu'r fath ensyniad, dylid rhoi'r gorau i'r achos. Yna ceisiodd Shee ddyfarniad y dylai Lloyd dalu holl gostau'r achos.

Sylwodd yr arglwydd Campbell fod Marshall yntau wedi difrïo y *'Methodist ladies'*, ac ategodd yr Ustus Wightman y dylasai fod wedi ceisio darganfod gwir ystyr yr ymadrodd. Felly 'roedd yn rhaid i'r naill ochr a'r llall dalu eu costau eu hunain.

Gorfoleddodd Lloyd yn ei waredigaeth. 'Wrth ystyried . . . yn llaw pwy yr oeddym — wrth ystyried ein bod yn llaw un o ddisgyblion y grefydd hono ag sydd wedi lliwio ein daear a gwaed y saint' roedd 'yn wir ddiolchgar ein bod wedi dianc heb fwy o anaf'. Ond roedd yn rhaid iddo dalu oddeutu trigain punt o gostau, swm sylweddol dros ben.

Cafodd ychydig o gymorth oddi wrth ddarllenwyr yr *Amserau*, ond mae tawelwch Lloyd yn awgrymu y bu'n rhaid iddo ef dalu cyfran helaeth o'r costau o'i adnoddau prin ei hun.

*(I'w barhau)*

# Ble mae'r Gymraeg am y pac o gardiau?

**HOWARD HUWS yn holi**

WN I DDIM a oes rhyw ddarllenydd yn cofio cân Saesneg o'r enw 'Deck of Cards'. Na? Wela'i ddim bai arnoch. Rhyw Americanwr oedd wrthi'n traethu, mewn modd diflas tu hwnt, sut y bu'n filwr ac fel y'i daliwyd yn chwarae cardiau yn yr eglwys, ac fel y llwyddodd i osgoi cosb trwy ddehongli'r pac mewn modd dilychwin o grefyddol. 'Ah noh', terfynai, 'Ah noh, foh ah wuz that souldiuh'.

Mae'n rhaid ei fod yn oroeswr dygn, oherwydd mae'i hanesyn ar gerdded ers oes y Tuduriaid. Offeiriad yw'r cyhuddiedig gwreiddiol a rhaid oedd iddo gyfiawnhau ymwneud ag un o bleserau'r oes trwy droi'r cardiau'n galendr, ac yn grynhoad o'r Ysgrythurau. Difyr iawn; ond prin fuasai fy niddordeb ynddo heblaw i enghraifft o gyfnod rhwng yr offeiriad direidus a'r milwr angherddorol ddod i'm rhan.

Mae'n ddalen ffwlscap mewn cyflwr llai na gwych, ac agos mor frau â gwe pry' cop. Mae teitl: 'A new PACK OF CARDS, changed into a compleat and perpetual, / ALMANACK: / In a Dialogue between a Nobleman and his Servant.' Fe'i hargraffwyd ac fe'i gwerthwyd gan R. Haworth, llyfrwerthwr, yn Bury rhywbryd tua 1790.

* * * *

ADRODDIR yn fyr fel y bu i snichyn o was achwyn wrth foneddwr fod un arall o'r gweision yn chwarae cardiau, gan wybod fod y gŵr mawr yn casáu hapchwarae â chas perffaith. Gelwir y cyhuddiedig gerbron ei feistr: gwedy ei fod yn ymwneud â chardiau, ond wedi'i chwilio darganfyddir pac yn ei boced. Â'r boneddwr yn gandryll ('The nobleman in a fury began to stamp about the room saying, you impudent rogue, how dare you . . .').

Mae'n o ddu ar Jac y gwas. Ei amddiffyniad yw na ŵyr o ddim am hapchwarae, ond mai ei almanac yw'r cardiau. Nis credir ('Your Almanack! you dog, did ever any one make an almanack of cards, you villian (*sic*)', ond â ati i ddangos nid yn unig sut i droi pac yn almanac, ond hefyd yn llyfr gweddi a mwy.

Diwedd y gân yw i Jac adennill ffafr ei feistr trahaus a throi'r drol ar y snichyn a'i bradychodd. Mae hwnnw'n cael yr hwi o'i swydd, ac yna'n marw. Ei feddargraff yw'r pill sy'n cloi'r hanes:

> **Pray gentle reader take it not amiss,**
> **That o'er this stone you may either weep or piss . . .**

O'i gymharu â'r Americanwr, mae Jac yn gwneud gwell defnydd o'i gardiau, ac y mae'i hanes yn ddifyrrach o'r hanner gyda digon o ddweud deheuig ac o wrthdaro dramatig. I ddweud y gwir, mae'n debycach i sgript nag i ddim arall, gyda rhagymadrodd, perfformiad, a chân fach i gloi. Tybed a oedd Mr Haworth yn mynychu'r theatr?

Boed a fo am hynny, mae gennyf ymholiad i'r darllenwyr. Mae cof gennyf imi unwaith daro golwg ar bentwr o lyfrau yn llyfrgell y Brifysgol ym Mangor. Ar eu pen 'roedd un digloriau ond eglur ei brint. Gallaswn dybio yn ôl y llythrennau ei fod yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif; a'i destun oedd hanes y pac o gardiau — yn Gymraeg, y tro hwn.

Ysywaeth 'doedd gen i mo'r cyfle ar y pryd i sbio ymhellach, ac erbyn heddiw pwy a ŵyr ymhle mae'r llyfryn ymhlith holl gyfrolau a thaflenni'r drysorfa honno. Tybed a wyddoch chi rywbeth am y gyfrol yma?